Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Trelyn
# Stryd Commercial
# Pengam
# Y Coed-duon
# NP12 3ST

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymraeg Trelyn ym Mhengam, Y Coed-duon yng nghymoedd de-ddwyrain Cymru a daw mwyafrif helaeth o ddisgyblion yr ysgol o dref y Coed-duon a phentrefi Cefn Fforest a Fleur-de-lys. Ar hyn o bryd, mae 198 o ddisgyblion yn yr ysgol sy'n cynnwys 23 disgybl rhan amser oed meithrin.

Daw 2% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg gan o leiaf un rhiant.

Mae 11.8% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn cinio am ddim sydd yn sylweddol is na'r ganran sirol a chenedlaethol ac mae 16% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion arbennig.

Yn dilyn ymddeoliad y cyn bennaeth yn nhymor yr haf 2011, penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2011.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod mis Mawrth 2007.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Trelyn yn 2012-2013 yn golygu cyllideb o £2,805 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £4,640 a'r isafswm yw £2,620. Mae Ysgol Gymraeg Trelyn yn 57fed o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- bod safonau yn dda ar draws yr ysgol;
- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod bron pob disgybl yn datblygu'n ddysgwr annibynnol a hyderus;
- bod ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda; a
- bod yr ysgol yn gymuned gynhwysol gydag ethos gofalgar lle mae cyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod y pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol pwrpasol i'r ysgol;
- bod gan holl randdeiliaid yr ysgol ffocws clir ar godi safonau a gwelliant parhaus;
- bod y broses hunanarfarnu yn dangos yn eglur fod gan yr arweinyddion ddarlun clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol; ac
- mae'r cynllun datblygu ysgol yn canolbwyntio'n briodol ar godi safonau.

## Argymhellion

A1 Codi canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch mewn mathemateg a gwyddoniaeth

A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod yr adroddiadau i rieni yn bodloni'r gofynion statudol

A4 Datblygu rôl y llywodraethwyr yn y broses hunanarfarnu a gosod targedau heriol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu, yn cynnwys y disgyblion ar y gofrestr anghenion arbennig.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol yn dda ac yn dysgu cysyniadau newydd yn effeithiol.

Mae disgyblion drwy'r ysgol yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyd-ddisgyblion ac maent yn ymateb yn briodol i gwestiynu athrawon. Mae llawer ohonynt yn awyddus i gyfranogi ar lafar ac i rannu syniadau. Maent yn medru rhesymu yn aeddfed, er enghraifft, wrth drafod eu barn ar ddyfais bwysicaf Oes Fictoria. Mae bron pob disgybl yn medru gweithio'n annibynnol ar amryw o dasgau ar draws y dosbarthiadau. Gallant weithio'n effeithiol mewn parau, grŵp neu fel unigolion i ymateb i dasg yn dda. Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae safon iaith lafar y disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Maent yn medru defnyddio geirfa Gymraeg a chystrawennau cadarn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu i fod yn ddarllenwyr annibynnol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn ystyrlon a chyda mynegiant i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn darllen ystod eang o destunau yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn medru trafod eu hoff awduron yn hyderus. Defnyddiant eiriaduron a thesawrws yn effeithiol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n annibynnol mewn gwahanol gyd-destunau gyda chywirdeb cynyddol. Mae gan y mwyafrif afael cadarn ar gystrawen Gymraeg ac yn gyffredinol maent yn atalnodi eu gwaith yn briodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n aeddfed a chywir mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r disgyblion hŷn yn arbennig yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig yn effeithiol mewn pynciau eraill.

Yn 2012, ac eithrio mewn datblygiad mathemategol, roedd canran y disgyblion saith oed a oedd yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd canlyniadau datblygiad mathemategol yn is na'r teulu o ysgolion ond yn uwch na Chymru. Yn gyffredinol, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) yn uwch na chyfartaledd y teulu ac yn sylweddol uwch mewn datblygiad personol a chymdeithasol. O'u cymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio di-dâl, mae eu perfformiad yn y 50% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol ond yn y 50% uchaf ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol.

Yn 2012, mae canlyniadau'r disgyblion 11 oed ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn gyson uwch nag yn ysgolion y teulu a'r ffigurau cenedlaethol ar gyfer pob pwnc. Mae pob pwnc yn dangos cynnydd dros y tair blynedd diwethaf.

Ac eithrio mewn Saesneg, roedd canran y disgyblion a oedd wedi cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn gyffredinol yn is na'r teulu a Chymru mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Serch hynny, mae pob pwnc yn dangos cynnydd dros y tair blynedd diwethaf. Wrth gymharu canlyniadau'r disgyblion gyda pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg o ran cinio di-dâl, mae'r ysgol yn gyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd ac yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg.

Nid oes patrwm arwyddocaol yn cyfeirio at unrhyw wahaniaethau rhwng canlyniadau merched a bechgyn dros gyfnod o bedair blynedd, nac ychwaith rhwng disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a rheini sydd heb yr hawl.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn medru dangos dealltwriaeth glir o beth sydd angen ei wneud i fod yn iach a pham mae hyn yn bwysig.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi codi'n flynyddol dros gyfnod o bedair blynedd ac mae yn y 50% uchaf o ysgolion mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill, tebyg o ran nifer y disgyblion â hawl i ginio am ddim. Mae gan y disgyblion agwedd dda tuag at bwysigrwydd presenoldeb a phrydlondeb.

Mae safonau ymddygiad disgyblion yr ysgol yn arbennig o dda. Mae'r holl ddisgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Maent yn cydweithio'n dda iawn ac yn cynnal dysgu ei gilydd yn y dosbarth. Maent yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr.

Mae gan ddisgyblion hynaf yr ysgol fedrau cymdeithasol a hunanhyder rhagorol sy'n cael eu magu'n effeithiol iawn drwy gydweithio'n rheolaidd gyda chanolfan ar gyfer oedolion ag anghenion arbennig. Mae ganddynt agwedd oddefgar a pharchus tuag at yr oedolion hyn ac maent yn mwynhau eu cyfnodau wythnosol o gymdeithasu yn ogystal â pherfformio iddynt adeg y Nadolig.

Mae disgyblion yr ysgol yn cyfrannu'n dda at y broses o werthuso a chynllunio camau nesaf eu haddysg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae profiadau dysgu yn cael eu cynllunio'n fanwl trwy'r ysgol ac yn sicrhau gweithgareddau gwerthfawr a chynhwysfawr sy'n cwrdd ag anghenion y disgyblion yn dda. Mae'r profiadau sy'n cael eu darparu gan yr athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion, yn eu hysgogi i ddysgu ac yn ymdrin â gofynion y Cyfnod Sylfaen, y cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol yn llawn. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn rhan o'r broses gynllunio sy'n golygu bod y disgyblion yn dod yn fwy cyfrifol am arwain eu dysgu eu hunain wrth iddynt ddatblygu o un cam i'r nesaf yn eu haddysg.

Mae pob dosbarth ar draws yr ysgol yn darparu profiadau cyfoethog, uniongyrchol sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar fedrau personol a chymdeithasol y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn effeithiol wrth ddatblygu medrau meddwl a gallu'r disgyblion i ddysgu'n annibynnol. Caiff y disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau trwy astudiaethau trawsgwricwlaidd gyda phwyslais cryf ar ddatblygu llythrennedd. Fodd bynnag, mae diffyg cyfleoedd digonol i ddatblygu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Rhoddir sylw da i'r cwricwlwm Cymreig trwy'r ysgol sy'n galluogi'r disgyblion i werthfawrogi eu diwylliant eu hunain. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad i brofiadau megis ymweliadau a chestyll lleol ac astudiaeth o enwogion Cymru, mae gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth Gymreig yn datblygu'n dda.

Mae'r ysgol yn hybu agwedd gynaliadwy at fywyd trwy nifer o weithgareddau, er enghraifft swyddogion swits sy'n gyfrifol am sicrhau nad oes goleuadau diangen yn cael eu defnyddio o fewn y dosbarth, a thrwy ailgylchu esgidiau a batris. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r byd ehangach trwy raglenni gwaith diddorol.

**Addysgu: Da**

Mae safon yr addysgu trwy'r ysgol yn gyson dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda a defnyddiant ystod eang o ddulliau addysgu ac adnoddau pwrpasol i gynorthwyo'r dysgu. Mae'r gwersi wedi eu cynllunio'n drwyadl ac mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys y staff cymorth, yn fodelau iaith da. Maent yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yr ysgol yn dda i gadw bron pob un disgybl ar dasg. Mae'r staff yn sefydlu perthynas waith dda sy'n meithrin dysgu. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, datblygir medrau dysgu'r disgyblion yn dda. Yn gyffredinol, mae disgwyliadau uchel gan yr athrawon ac mae'r gwersi'n llifo'n effeithiol. Hybir medrau dysgu annibynnol y disgyblion trwy amryw ddulliau addysgu.

Gwelir enghreifftiau da iawn o farcio pwrpasol ac anogir disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau craff yr athro. Yn y lleiafrif o achosion, lle nad yw'r marcio cystal, dim ond dathlu ymdrech a welir. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid yn effeithiol a theg. Mae systemau cymedroli ar lefel ysgol a chlwstwr yn sicrhau cysondeb yn asesiadau athrawon a defnyddir systemau clir ac effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau adnabyddiaeth dda o anghenion y disgyblion ac maent hefyd yn gymorth i adrodd yn ôl i rieni am gynnydd eu plant. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r adroddiadau yn cydymffurfio'n llawn a'r gofynion statudol ar adrodd yn ôl i rieni.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Caiff y disgyblion nifer o gyfleoedd i ddatblygu medrau sydd yn eu galluogi i fod yn iach trwy brofiadau o fewn y dosbarth a gweithgareddau allgyrsiol. Mae'r cyfleoedd hyn hefyd yn magu aeddfedrwydd y disgyblion ac yn datblygu agwedd ofalgar tuag at

eu cyd-ddisgyblion tu fewn a thu allan i'r dosbarth.  Mae'r ysgol yn annog presenoldeb a phrydlondeb yn effeithiol.  Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda.  Mae gan yr ysgol drefniadau a systemau trwyadl ar gyfer adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.  Mae'r profiadau dysgu a ddarperir iddynt yn y brif ffrwd ac mewn grwpiau llai yn eu cefnogi'n effeithiol i gyrraedd safonau priodol.  Mae'r ysgol yn olrhain canlyniadau profion safonol yn effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i gynllunio rhaglenni cefnogi addas ar gyfer y disgyblion.  Mae perthynas agos a buddiol yr ysgol gyda nifer o asiantaethau allanol  yn gymorth effeithiol wrth gwrdd ag anghenion unigolion.  Cynhelir cysylltiad agos â rhieni wrth lunio a gwerthuso targedau ar gyfer gwella yn y cynlluniau addysg unigol ac fe wneir defnydd da o gymorthyddion dysgu i gefnogi'r disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos, ofalgar a hapus gyda'r disgyblion yn cyfrannu tuag at yr ethos trwy'r drefn Cymar Cŵl a ffrindiau ffyddlon.   Mae'r staff yn ystyried ac yn gwerthfawrogi anghenion amrywiol y disgyblion yn dda ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl gael manteisio ar amrediad llawn y ddarpariaeth addysgol.  Maent yn meithrin agweddau cadarnhaol ymhlith disgyblion tuag at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol.

Gwneir defnydd da o bob gofod addas, gydag arddangosfeydd lliwgar o wybodaeth bynciol a gwaith y plant ymhob dosbarth.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o dda o'r ardaloedd allanol sydd yn hybu ystod eang o weithgareddau dysgu ffurfiol ac anffurfiol.  Mae adnoddau niferus a phwrpasol yn y dosbarthiadau sydd yn ysgogi'r disgyblion ac yn cynnig ystod eang o brofiadau iddynt.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:  Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth:  Da**

Mae'r pennaeth, y corff llywodraethol a'r staff yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer datblygiad yr ysgol.  Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol pwrpasol i'r ysgol.  Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ac mae'n arwain yr ysgol yn effeithlon.  Cefnogir y pennaeth yn effeithiol gan uwch dim rheoli gweithgar a staff ymroddgar ac mae ffocws clir ar godi safonau a gwelliant parhaus.  Mae gan yr holl staff ddisgrifiadau swydd cyfredol sydd yn adlewyrchu eu rolau a'u cyfrifoldebau.  Cefnogir eu datblygiad proffesiynol parhaus trwy system effeithiol o reoli perfformiad sydd yn hybu'r broses o wella'r ysgol yn dda.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol a gweithgar iawn.  Mae gan aelodau'r corff wybodaeth dda o rediad yr ysgol o ddydd i ddydd.  Maent yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr am berfformiad yr ysgol gan y pennaeth, ac mae eu dealltwriaeth yn datblygu'n dda.  Serch hynny, nid yw'r corff yn herio'n ddigonol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei safonau a'i pherfformiad.  Mae'r adroddiadau blynyddol i rieni oddi wrth y corff llywodraethol, a llawlyfr yr ysgol, yn bodloni'r gofynion statudol.  Mae'r ysgol yn talu sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol gan gynnwys cynllunio er mwyn codi safonau llythrennedd a rhifedd ar draws yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol broses briodol ar gyfer hunanarfarnu agweddau penodol ar ei gwaith. Defnyddir amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol yn y broses. Mae pob aelod o'r staff addysgu yn monitro safonau cyrhaeddiad, yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol. Yn ddiweddar, mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu at y broses trwy ymweld â phob dosbarth ac ysgrifennu adroddiadau ar safonau a darpariaeth. Mae hyn yn arfer dda. Defnyddir data perfformiad yn effeithiol i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn gryno ac yn dangos yn eglur fod gan yr arweinyddion ddarlun clir o gryfderau a gwendidau'r ysgol.

Mae perthynas agos rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn cynnwys niferoedd clir a hylaw o dargedau ar gyfer gwella a meini prawf llwyddo mesuradwy. Mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu'n briodol i fodloni'r blaenoriaethau. Dynodir cyfrifoldebau'r staff yn eglur yn y cynllun datblygu ysgol ac mae pawb yn deall eu rôl yn gweithredu'r cynllun yn dda iawn.

Mae'r ysgol yn aelod o nifer o rwydweithiau proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys rhwydweithiau ar gyfer codi safonau rhifedd a llythrennedd. Mae'r bartneriaeth gydag ysgolion eraill yn cael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno strategaethau da ar gyfer codi safonau darllen bechgyn. Maent wedi rhannu eu harfer dda gydag ysgolion ledled yr awdurdod lleol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cydweithio da rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae'r rhan fwyaf o rieni yn gefnogol iawn i waith a bywyd yr ysgol. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad lles ac addysg y disgyblion. Mae'r ysgol wedi creu cysylltiadau da gyda'r cylchoedd meithrin lleol sydd yn help i sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu'n dda wrth iddynt drosglwyddo.

Ceir cysylltiadau cryf iawn rhwng yr ysgol uwchradd a holl ysgolion y clwstwr. Fel rhan o'r gweithgareddau pontio mae'r ysgol uwchradd yn rhyddhau un aelod o'r staff i ddysgu disgyblion blwyddyn 6 yn wythnosol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at les disgyblion wrth iddynt drosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

Mae cysylltiadau agos ac effeithiol iawn rhwng disgyblion hynaf yr ysgol a chapel Ebenezer ac mae grŵp ohonynt yn rhannu bore coffi yn wythnosol gydag oedolion sydd ag anghenion arbennig. Yn ystod y sesiynau hyn, mae cyd-ddealltwriaeth arbennig i'w gweld rhwng y plant a'r oedolion. Mae'r profiad yn cryfhau medrau cymdeithasol y disgyblion ac maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o werth pawb yn y gymuned.

Mae'r ysgol wedi cychwyn ar y gwaith o safoni a chymedroli gwaith y disgyblion yn y clwstwr lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r adnoddau a ddyrennir i'r ysgol yn effeithiol. Caiff y gwariant ei fonitro'n rheolaidd ac yn drwyadl i sicrhau bod gan yr ysgol ystod eang a phwrpasol o adnoddau dysgu ac addysgu.

Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol gan yr ysgol.  Maent yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd.  Gwneir defnydd da o arbenigeddau staff i wella ansawdd a chodi safonau'r disgyblion.  Defnyddir amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon yn briodol i gynllunio gwaith a monitro cynnydd disgyblion.

O ganlyniad i'r safonau da a gyflawnir gan ddisgyblion a'r nifer o gryfderau yn ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Yn 2012, roedd canran y disgyblion saith oed a oedd yn cyflawni'r deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg, ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol, yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd canlyniadau datblygiad mathemategol yn is na'r teulu o ysgolion ond yn uwch na Chymru. Roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant uwch (deilliant 6) yn y medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru, ond roedd y canran yn uwch ar gyfer datblygiad mathemategol ac yn sylweddol uwch yn natblygiad personol a chymdeithasol.

Pan fo disgyblion yn gadael y Cyfnod Sylfaen mae eu perfformiad yn y 50% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol ond yn y 50% uchaf ar gyfer medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol o'u cymharu â pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio di-dâl.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol mewn perthynas â'r lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, i ddisgyblion 11 mlwydd oed (y dangosydd pwnc craidd) wedi codi o fod yn is na chanlyniadau'r teulu a Chymru i fod yn uwch na'r ddau yn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae pob pwnc yn dangos cynnydd dros y tair blynedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd y lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru yn Saesneg, yn is na'r teulu yn y Gymraeg ac yn is na'r teulu a Chymru mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae pob pwnc yn dangos cynnydd dros y tair blynedd diwethaf.

Wrth gymharu canlyniadau disgyblion yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn 6 gyda pherfformiad disgyblion mewn ysgolion tebyg o ran cinio di-dâl, mae'r ysgol yn y 50% isaf o ran mathemateg, yn y 50% uchaf ar gyfer Cymraeg a gwyddoniaeth ac yn y 25% uchaf ar gyfer Saesneg.

Does dim patrwm amlwg rhwng canlyniadau merched a bechgyn dros gyfnod o bedair blynedd, na rhwng disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a rheini sydd ddim.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Llenwyd yr holiaduron gan 96 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion ar gyfer pob cwestiwn yn cymharu'n ffafriol â'r darlun cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

Mae pob plentyn a lenwodd yr holiadur yn teimlo:

- yn ddiogel yn yr ysgol;
- bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- eu bod yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn poeni am rywbeth;
- bod llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol;
- bod oedolion yn yr ysgol yn eu helpu i wneud cynnydd, ac
- eu bod yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd.

Mae bron pob plentyn a lenwodd yr holiadur yn teimlo bod:

- yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach;
- y gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith;
- ganddynt ddigon o adnoddau, a
- bod ymddygiad yn dda yn y dosbarth ac ar yr iard.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd 36 o holiaduron gan rieni/gofalwyr. Mae'r ymatebion yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â'r darlun cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd.

O'r 36 ymateb a gafwyd, mae pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol hon;
- bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuon nhw yn yr ysgol;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol; a
- bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;

Mae bron pob un yn cytuno neu'n cytuno'n gryf:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol;
- bod yr addysgu'n dda;
- bod staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed ac gwneud ei orau;
- y caiff eu plentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol;

- bod yn teimlo’n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i’r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem;
- eu bod yn deall y drefn ar gyfer delio â chwynion;
- bod yr ysgol yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb;
- bod eu plentyn wedi ei baratoi’n dda ar gyfer symud ymlaen i’r ysgol nesaf;
- bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau ar gael.

Mae llawer yn cytuno neu’n cytuno’n gryf:

- bod gwaith cartref sy’n cael ei roi yn adeiladu’n dda ar yr hyn mae’r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol;
- bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch;
- eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Michael Hayes | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Geraint Wyn Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Liz Owen | Enwebai’r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.